# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd M.J Evans**

**Ward: Pencoed a Phenprysg**

**Plaid: Llafur Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mai 2023**.** Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Pencoed a Phenprysg ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor. Y rhain yw:

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 1
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 3
Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb
Fforwm Cyngor Tref a Chymuned.

Rwyf hefyd yn gynrychiolydd ar gyfer corff allanol: - Bwrdd Cadwraethwyr Coety Wallia.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 34 o ymholiadau cyfansoddol yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych chi wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Bydd ansawdd bob amser yn cael blaenoriaeth dros nifer, ac rwyf wrth fy modd bod canlyniadau'r ymholiadau a godwyd wedi arwain at gamau gweithredu a gymerwyd ac a gwblhawyd yn gwneud gwahaniaeth diriaethol i'r Gymuned.

Mae'r rhain yn cynnwys ail-wynebu ffyrdd, cyrbau wedi'u gostwng, meinciau newydd, danfon deunyddiau ailgylchu ac ati. I enwi dim ond rhai.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf fi wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth drwy ddefnyddio'r ddolen hon:

Y Cynghorydd Melanie Evans

**Gweithgarwch yn yr Etholaeth**

Rwy'n parhau i feithrin perthnasoedd gwaith proffesiynol effeithiol gyda'r holl drigolion, busnesau, cyrff a sefydliadau perthnasol ac rwyf wedi mwynhau cymryd rhan a chyfrannu at nifer o ddadleuon, trafodaethau, cyfarfodydd, cymorthfeydd preswyl a cherdded o gwmpas y Dref.

Dyma rai enghreifftiau o'r pynciau mwyaf perthnasol a chynyrfiadol yn ystod fy mlwyddyn gyntaf rwyf fi wedi eu hystyried, cyfrannu iddynt ac ymgysylltu â hwy: -

Amnewid Pont Rheilffordd Penprysg. (Parhaus).

Problemau parcio ar hyd a lled y Dref. (Parhaus).

Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. (Parhaus trwy Strydoedd mwy Diogel.)

Caeau, darpariaethau a chyfleusterau clwb chwaraeon. (Parhaus).

Cludiant a Chyfleusterau Addysgol. (Parhaus trwy Ysgolion yr 21ain Ganrif neu sy’n cael ei alw bellach yn gymunedau cynaliadwy ar gyfer dysgu.)

Gwelliannau i ardaloedd chwarae.

Rwyf wedi meithrin cysylltiadau cryf â Chyngor Cymuned Llangrallo Uwch ac yn mynychu eu cyfarfodydd misol pan fyddaf ar gael.

Mae hyn wedi rhoi cyfle i mi wrando, ymgysylltu a thrafod materion ynghylch gwasanaethau bws, cysylltiadau teithio llesol, pryderon diogelwch a phriffyrdd.

**<u>Mentrau a Gweithgareddau Arbennig</u>**

Rwy'n Llywodraethwr Cymunedol ar gyfer Ysgol Gynradd Croesty ac Ysgol Gyfun Pencoed.

Rwyf wedi bod yn aelod o Gyngor Tref Pencoed ers 2017.

Mynychais 2 gyflwyniad Cenin ynghylch y cynnig ar gyfer adeiladu fferm wynt a chyfleuster solar yn Heol-y-cyw/Bryncethin.

Rwyf wedi manteisio ar y cyfle i ymweld, cymryd rhan ac ymgysylltu â Rockwool, Valleys to Coast, a chartref gofal Glanffrwd yn ystod eu diwrnodau ymgysylltu.

O ganlyniad i feithrin perthnasoedd gwaith proffesiynol, rwyf bellach yn cyfarfod yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr o'r Heddlu a chyrff/sefydliadau perthnasol eraill trwy Strydoedd Mwy Diogel.

Mae'r cyfarfodydd hyn wedi arwain at roi camau gweithredu ac ymyriadau ar waith h.y.:

Camera CCTV arall wedi'i osod mewn lleoliad perthnasol yn y dref.

Dosbarthu taflenni i gynorthwyo preswylwyr ar sut i riportio Trosedd/ASB.

| |
|---|
| Gwersi hunanamddiffyn rhad ac am ddim i fenywod a merched (16 mlwydd oed a hŷn) bob dydd Mawrth o 25/04/23 i 16/05/23. |
| **Gweithgareddau/Materion Eraill**<br><br>Rwy'n cynnal teithiau cerdded rheolaidd ledled y dref i ganfod unrhyw bryderon / materion sy'n gofyn am atgyfeiriad.<br><br>Rwyf hefyd yn parhau i gael trafodaethau/ e-byst/galwadau ffôn i wrando a mynd i'r afael ag anghenion y gymuned. |
| Y Cynghorydd M.J Evans (Melanie Jayne Evans): Dyddiad: 29/06/23 |